# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Pwyllgor 1a, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN, Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Bill Cowie, Peter Arnold Evans, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Bob Murray, David Simmons, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

Arsylwyr - Cynghorydd Meirick Davies ac Arwel Roberts

Aelodau Arweiniol Cabinet - Cynghorydd David Smith ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Addysg (KIE), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (IL), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW), Rheolwr Perygl Llifogydd – Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (WH) Rheolwr Datblygu – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

Roedd yr Aelod Cyfetholedig Kathy Jones yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen.
Mynychodd cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Keith Ivens, y cyfarfod ar ôl derbyn gwahoddiad gan y Pwyllgor, ynghylch eitem 6 ar y Rhaglen.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Debra Houghton, John Piper a Gareth Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 5.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2016:-

Materion yn codi:-
Codwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â Thudalennau 14 i 19 – 'Effaith y cynnydd mewn taliadau parcio ceir ar draws y sir'.

(i) Mewn ymateb i sylw, pe bai Pennaeth Gwasanaeth yn diystyru penderfyniadau a wnaed gan bwyllgor archwilio wrth benderfynu ar bolisi dan rymoedd a ddyrannwyd iddo/iddi fel unigolyn, nid oedd yn ddefnydd effeithiol o amser aelodau i drafod y cynigion. Dywedodd y Cadeirydd, gan fod y penderfyniad penodol hwn wedi cael ei gymryd, roedd 'Penderfyniadau a Ddyrannwyd i'r Swyddog Arweiniol' bellach yn destun proses debyg i rai Aelod Arweiniol, gyda'r posibilrwydd y gallai Archwilio alw penderfyniad Swyddog Arweiniol i mewn ar gyfer ei archwilio, cyn ei weithredu. Gofynnodd y Pwyllgor i arweiniad ar y broses hon gael ei chylchredeg i aelodau er gwybodaeth.

(ii) Dywedodd y Cynghorydd Martyn Holland fod y datganiad yn y cofnodion yn ymwneud â'r ffaith fod Cyngor Tref yr Wyddgrug yn rhoi cymhorthdal tuag at ffioedd parcio yn yr Wyddgrug yn anghywir. Dywedodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ei fod wedi cael gwybod fod hyn yn wir o ffynhonnell ddibynadwy. Gofynnodd Aelodau i'r Cydlynydd Archwilio gysylltu â Chlerc Cyngor Tref yr Wyddgrug i ganfod a oedd y Cyngor yn rhoi cymhorthdal tuag at ffioedd parcio yn y dref; a

(iii) roedd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cwestiynu geiriad penderfyniad (x) ar dudalen 19 ac wedi gofyn iddo gael ei ddiwygio i ddweud "dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ymhen chwe mis er mwyn rhoi diweddariad ar yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a gyflwynwyd ar 27 Hydref 2016, ynghyd â'r cynllun rheoli asedau meysydd parcio drafft i gael sylwadau'r aelodau".

***PENDERFYNWYD****: yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth uchod a'r diwygiad, fel y drafftiwyd yn (iii) uchod, dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**5 POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL SIR DDINBYCH**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Kathy Jones, a oedd wedi'i phenodi'n ddiweddar gan yr Eglwys Gatholig i wasanaethu fel ei gynrychiolydd cyfetholedig ar gyfer materion yn ymwneud ag addysg ar y Pwyllgor Archwilio, i'w chyfarfod cyntaf.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg yr adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd yn flaenorol) a ddiweddarodd y Pwyllgor ar yr adolygiad o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Sir a oedd yn gweithredu ar hyn o bryd. Atodwyd

copi o fersiwn ddiweddaraf y Polisi drafft i'r adroddiad er gwybodaeth yr aelodau. Rhoddodd y Pennaeth Addysg drosolwg byr o'r cefndir a oedd wedi arwain at y penderfyniad i adolygu'r polisi yn 2014, a'r adolygiad presennol dilynol o'r Polisi. Dywedodd eu bod wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar elfennau o'r Polisi diwygiedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n llywodraethu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ogystal â deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â diogelu a lles. Dywedodd y Pennaeth Addysg a swyddogion eraill wrth aelodau fod y Polisi diwygiedig, cyn belled a bod hynny'n bosibl yn rhesymol, yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn flaenorol gan gynghorwyr a rhieni yn ystod gweithrediad y polisi yn dilyn adolygiad 2014, gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, y berthynas agos rhwng ysgolion cynradd 'bwydo' a'u hysgolion uwchradd cysylltiedig, y polisi llwybrau peryglus i'r ysgol, polisi teithio dewisol a hefyd hygyrchedd y broses apeliadau ar gyfer rheini/ gwarcheidwaid.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a'r Rheolwr Adnoddau a Chymorth Addysg (Cynllunio ac Adnoddau) fod:

- y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cael cyngor cyfreithiol ar gynnwys y polisi drafft cyn ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion oedd wedi eu cynnwys ynddo,
- Caniatáu rhieni/ gwarcheidwaid i gwrdd â swyddogion fel rhan o'r broses Apeliadau wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Byddai trafodaethau gyda rhieni/ gwarcheidwaid yn cael eu cynnwys rŵan yn y polisi mewn perthynas â 'darpariaethau dewisol', gan mai yn ystod trafodaethau o'r fath a sgyrsiau wyneb i wyneb yr oedd amgylchiadau unigol yn cael eu harchwilio a'u deall yn gywir;
- roedd y term 'ysgol addas agosaf' yn cynnwys cludiant i ysgolion ffydd y tu allan i'r sir os mai honno oedd ysgol ffydd agosaf y disgybl;
- roedd barn gyfreithiol eisoes wedi'i derbyn ar rai elfennau o'r polisi diwygiedig, roeddem yn dal i aros am gyngor yr ymgynghorydd cyfreithiol ar elfennau eraill. Roedd y farn a dderbyniwyd hyd yma yn ffafriol;
- prif nod y polisi diwygiedig oedd sicrhau fod y disgyblion cywir yn derbyn y cludiant yr oed ganddynt yr hawl i'w dderbyn i'w 'hysgol agosaf briodol'. Unwaith y pennwyd hynny, gellid rhoi ystyriaeth i geisiadau cludiant gostyngol, gan gynnwys cyfathrebu clir gyda rhieni/ gwarcheidwaid y disgyblion y dyfarnwyd cludiant gostyngol iddynt ar yr amser y dyfarnwyd y cludiant gostyngol;
- byddai asesiad effaith yn cael ei chynnal ar bob cais am drefniadau teithio, statudol a dewisol;
- byddai'r polisi yn mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau a ddaeth i'r amlwg o dan yr adolygiad blaenorol h.y. perthnasau wedi eu hen sefydlu gydag ysgol uwchradd fel 'ysgol fwydo' er mwyn peidio â chael effaith negyddol ar ysgolion penodol a'u disgyblion;
- Byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi diwygiedig yn ystod y tymor er mwyn sicrhau y byddai cyfle digonol i bob budd-ddeiliad i gyflwyno eu barn;
- Fel rhan o'r broses ymgynghori, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod y polisi diwygiedig bwriedig gydag unrhyw barti cysylltiedig h.y. Fforwm Llywodraethwyr Ysgol, Cynhadledd Penaethiaid; pob llywodraethwr ysgol ac ati. Byddai cyfeiriad at y polisi diwygiedig yn cael ei gynnwys yn y

Newyddlen Addysg newydd a drefnwyd i'w dosbarthu i rieni yn fuan yn y flwyddyn newydd;

- amlinellwyd yr amserlen ar gyfer y broses adolygu polisi, gan gynnwys y cyfnod ymgynghori yn yr adroddiad. Rhagwelwyd y byddai'r cam ymgynghori cyhoeddus yn dechrau'n fuan yn y flwyddyn newydd gyda'r bwriad o gwblhau'r polisi yn ystod rhan gyntaf yr haf ac i'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Medi 2017 i'w weithredu ym mis Medi 2018;
- Cydnabuwyd y byddai effaith ar gyllideb y Cyngor unwaith y byddai'r polisi diwygiedig yn cael ei weithredu. Roedd ymrwymiad statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant i'r ysgol i'r disgyblion hynny a oedd yn gymwys i'w gael, gan gynnwys disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (AAA), felly byddai'n rhaid dod o hyd i unrhyw gyllid ychwanegol;
- roedd yn hanfodol i gael y polisi yn iawn i alluogi cyfrifiadau cywir o'r gyllideb oedd ei hangen mewn gwirionedd i'w ddarparu;
- os oedd gan unrhyw un bryderon mewn perthynas ag a oedd unrhyw ysgolion yn darparu'r cwricwlwm yn unol â'r dynodiad categori, dylai'r pryderon hynny gael eu codi gyda'r Gwasanaeth Addysg i'w alluogi i ymchwilio iddynt.

Cyn cwblhau'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a swyddogion am yr holl waith oedd wedi'i wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r bwriad o ddatblygu polisi teg a chyfiawn. Roedd o'r pwysigrwydd mwyaf i gydbwyso'r gyllideb gydag ymrwymiadau statudol y Cyngor. Gan gydnabod y byddai bob amser rhyw anghysonderau pan oedd y rheolau'n cael eu gweithredu dywedodd fod y Pwyllgor wedi eu calonogi gan y ffaith y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda rhieni/ gwarcheidwaid disgyblion unigol a oedd yn apelio yn erbyn penderfyniadau, neu a oedd yn cysylltu â'r Cyngor yn cwestiynu eu hawl. Pwysleisiodd yr angen i bob cynghorydd sir i gael eu briffio ar y polisi diwygiedig cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus arno. Felly:

***PENDERFYNODD*** *y Pwyllgor: -*

*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod i gefnogi'r cynnig i fwrw ymlaen â'r cyfnod ymgynghori maes o law, unwaith roedd barn y cynghorydd cyfreithiol wedi ei dderbyn ar bob agwedd ar y polisi diwygiedig a gyfeiriwyd ato/ati am gyngor; a*

*(ii) cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, dylid cyfeirio'r polisi drafft yn ôl i'r Pwyllgor i roi cymeradwyaeth i ymgynghori.*

**RHAN 1**

**6 RHEOLI DŴR A LLINIARU LLIFOGYDD**

Croesawyd Mr Keith Ivens, Rheolwr Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Uwch Beiriannydd y Cyngor - Rheoli Perygl Llifogydd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i hwyluso trafodaeth ar reoli dŵr a mesurau lliniaru llifogydd yn Sir Ddinbych. Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau nifer o bryderon mewn perthynas â chynnal afonydd, nentydd, ffosydd a llifoedd, gan holi pwy oedd yn gyfrifol am eu cynnal a'u clirio.
Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y ddau swyddog:

- gweithiodd yr awdurdod lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn agos gyda'i gilydd i liniaru risg i fywyd ac eiddo rhag llifogydd o 'brif' afonydd;
- Rhestrir gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar bob prif afon a chwrs dŵr dan oruchwyliaeth CNC ar 'Rhaglen Cynnal a Chadw Arferol Gogledd Cymru 2016/17' ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Lluniwyd amserlenni cynnal a chadw Cyfoeth Naturiol Cymru yn seiliedig ar asesiad risg a dyraniad cyllideb sydd ar gael. Mae gwaith modelu eisoes wedi cael ei raglennu ar gyfer 2017-18 er mwyn deall a ellid gwella isadeiledd a threfnau cynnal a chadw Ffos y Rhyl. Fodd bynnag, nid oedd Ffos y Rhyl yn cael ei hystyried yn ardal lle'r oedd perygl mawr ar hyn o bryd, gan fod tri phwynt allanfa ar gyfer dŵr o'r Ffos, gan gynnwys gorsaf bwmpio a leolir yno;
- Roedd yr arwyddion yn awgrymu fod cynnydd mewn cyfnodau o law trwm iawn yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd hyn yn dod yn anodd i'w ragweld a'i reoli mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw cyrsiau dŵr;
- Roedd cyfrifoldeb am oruchwylio gwaith cynnal a chadw cyrsiau dŵr ar draws Cymru yn cael ei bennu gan ddynodiad pob cwrs dŵr. Roedd CNC yn gyfrifol am oruchwylio 'prif afonydd' - roedd y rhain yn cynnwys prif afonydd / afonydd mawr, nentydd a rhai cyrsiau dŵr llai. Mae pob cwrs dŵr agored arall, a elwir yn 'gyrsiau dŵr arferol', yn cael eu goruchwylio gan yr awdurdod lleol yn ei gymhwyster a'r 'Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol'. Roedd gwybodaeth am ddynodiadau cyrsiau dŵr ar gael ar wefan CNC;
- Dyrannwyd cyllideb i CNC a oedd 'wedi'i glustnodi' at ddibenion cynnal a chadw 'prif afonydd' at ddibenion dyfrhau ac er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd ar yr afonydd hynny. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol (awdurdodau llifogydd lleol arweiniol) ariannu unrhyw waith Rheoli Perygl Llifogydd o'i gyllideb nad oedd wedi'i glustnodi;
- Er bod gan CNC, awdurdodau lleol a thirfeddianwyr lleol ddyletswyddau mewn perthynas â rheoli dŵr a'r perygl o lifogydd, rhannwyd y rhain yn ddau gategori - cyfrifoldebau ac awdurdodaeth. Roedd dyletswyddau a oedd yn perthyn i'r categori cyntaf yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar berchennog glan yr afon i wneud gwaith lliniaru/ rheoli dŵr. Er bod gan CNC ac awdurdodau lleol rymoedd deddfwriaethol i wneud gwaith ar gyrsiau dŵr, nid oes unrhyw ymrwymiad arnynt i wneud hynny;
- Roedd cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i CNC yn tueddu i fod tuag at waith lliniaru llifogydd lle'r oedd perygl mawr e.e. gwaith lliniaru llifogydd, ond roedd cyllid refeniw yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith atal llifogydd/ cynnal a chadw afonydd;
- Roedd dyletswyddau perchnogion glannau afonydd mewn perthynas â chyrsiau dŵr yn unol â Deddf Draenio Tir 1991, yn ymestyn i sicrhau nad oedd llif dŵr drwy'r tir yn cael ei atal.
- Roedd yr orsaf bwmpio ger Gwersyll Gwyliau Lyons yn y Rhyl a fethodd yn ystod y digwyddiad glaw trwm yn haf 2016 yn eiddo i Ddŵr Cymru ac nid CNC.

Roedd y Cyngor wedi cysylltu â Dŵr Cymru i ofyn am sicrwydd ynglŷn â dibynadwyedd y pwmp hwn;

- Prif ganolbwynt gwaith CNC oedd cyflawni gwaith lliniaru a rheoli llifogydd lle'r oedd bygythiad i fywyd neu eiddo. Os byddent yn dod o hyd i broblemau nad oedd yn peryglu bywyd neu eiddo, byddent yn rhoi gwybod i berchennog glan yr afon am y broblem. Mae gan CNC ddogfen ganllaw sydd ar gael i berchnogion glannau afonydd, a hyrwyddwyd yn eang drwy'r undebau ffermio. Roedd y Cyngor hefyd mewn cyswllt rheolaidd gyda thirfeddianwyr ar faterion o berygl neu bryder;
- Cynhaliwyd astudiaeth gan CNC yn edrych ar effeithiolrwydd posibl 'rheoli perygl llifogydd' h.y. yn nalgylch yr afonydd Elwy a Chlwyd. Un enghraifft o reoli perygl llifogydd naturiol yw'r gwaith ar y cyd rhwng CNC a Choed Cymru, lle plannwyd coed gyda'r bwriad o leihau cyfaint y dŵr a oedd yn llifo i lawr yr afon ac arafu ei llif. Casgliad yr astudiaeth oedd bod cyfleoedd am reoli perygl llifogydd naturiol yn eithaf cyfyngedig ar ddalgylchoedd Elwy a Clwyd.
- er y cydnabuwyd ers tro fod coedwigo yn ddull effeithiol i leihau'r dŵr a oedd yn llifo i lawr yr afon ac i arafu llif y dŵr, roedd ymchwil diweddar yn awgrymu na fyddai torri coed ar raddfa fechan, fel yr hyn a fwriadwyd ei wneud yn ardal Coedwig Clocaenog ger Cyffylliog er mwyn codi tyrbinau gwynt, yn cael effaith andwyol hirdymor ar lefelau afonydd a llif dŵr yn yr ardal honno nac ymhellach i lawr yr afon. Roedd Aelodau'n amheus o'r dybiaeth hon;
- nid oedd unrhyw fesurau 'gwyrddu', tebyg i'r rhai a dreialwyd yng ngogledd Lloegr lle'r anogwyd ffermwyr i beidio â charthu ffosydd nac agor ffosydd newydd gyda'r bwriad i liniaru perygl llifogydd, wedi eu cymryd yn Sir Ddinbych;
- gallai cynlluniau tebyg i gynllun Ffermwyr Pontbren yn ardal Llanfair Caereinion yng ngogledd Powys fod yn fuddiol mewn ardaloedd eraill at ddibenion amaeth, bioamrywiaeth, rheoli dŵr a lliniaru llifogydd;
- ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr, roedd yn ofynnol i ddatblygwyr, fel rhan o'r cais cynllunio, arddangos na fyddent yn cynyddu cyfradd llif dŵr arwyneb mewn cyrsiau dŵr ac ati. Yn gyffredinol, mae datblygwyr yn dueddol o wneud cais i Ddŵr Cymru am ganiatâd i gysylltu â'r system garthffosydd lleol. Caniatawyd hyn lle bo hynny'n 'ymarferol'. Pe na bai gallu yn y system garthffosydd, roedd y datblygwr yna'n tueddu i wneud cais cynllunio am waith trin preifat, ac roedd hwn yn ddull yr oedd CNC yn dueddol o'i ystyried yn anffafriol;
- Roedd CNC yn barod i drafod gyda thirfeddianwyr am unrhyw gynlluniau oedd ganddynt i garthu neu reoli cyrsiau dŵr ar eu tir. Roedd angen trwyddedau er mwyn gwneud y math hwn o waith. Fodd bynnag, roedd y broses o geisio am drwyddedau yn gymharol hyblyg a gallai ganiatáu cais am drwyddedau cyfnodol e.e. trwydded garthu/ cynnal a chadw blynyddol;
- Ni fyddai CNC fel arfer yn tynnu gwrthrychau / pethau dieithr o afonydd oni bai eu bod yn peryglu bywyd neu eiddo, neu berygl ar unwaith o lifogydd;
- ni fyddai CNC fel arfer yn gorfodi tirfeddianwyr i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr oni bai fod perygl i fywyd neu eiddo. Os penderfynwyd fod perygl o'r fath, gallai CNC fynd ar y tir i wneud y gwaith a lleihau'r risg, ac yna wedi hynny godi tâl ar y tirfeddiannwr am y gwaith a wnaed. Hyd gwybodaeth y cynrychiolydd nid oedd y dull gweithredu hwn wedi ei ddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf;
- roedd pryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud ag adeileddau pontydd, hyd yn oed os oedd y pwysau arnynt yn sgil llif dŵr, yn fater i'r awdurdod lleol nid CNC gan mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd adeileddau fel pontydd; a

• rhagwelwyd y byddai penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, yn y tymor hir, yn cael effaith niweidiol ar gyllid CNC ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr, gan fod pob cynllun lliniaru llifogydd / amddiffynfeydd môr diweddar wedi cael eu darparu yn bennaf gyda chyllid Ewropeaidd;

Gofynnodd aelodau i:
• Pryderon a godwyd mewn perthynas â dŵr ffo o ardaloedd ag arwyneb caled i ffosydd lleol yn ardal Gallt Melyd unwaith y byddai datblygiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael eu codi gan swyddogion CNC yn eu cyfarfod gweithredol nesaf;
• dylai swyddogion CNC a'r Cyngor gyfarfod gyda chynghorwyr sir yn ardal y Rhyl a Phrestatyn i drafod pryderon mewn perthynas â pheryglon llifogydd yn yr ardal leol; a
• yn sgil y cymhlethdodau yn ynghylch materion sy'n ymwneud â dŵr a rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau mewn perthynas â chyrsiau dŵr ac adeileddau sy'n croesi afonydd ac ar lannau afonydd, ni ellir rhoi cyflwyniad i bob cynghorydd sir yn ystod sesiwn Friffio'r Cyngor ar bob un o'r agweddau hyn. Awgrymwyd, er mwyn ei gwneud yn haws i gyfeirio ato y dylai darluniau gael eu defnyddio i egluro'r gwahanol gyfrifoldebau, ac esiamplau a ddefnyddir i amlygu sut y mae pob budd-ddeiliaid yn cydweithio i osgoi rhag i sefyllfaoedd ddatblygu i fod yn achosion difrifol;

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau swyddog am fod yn bresennol ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Roedd yn teimlo fod gan y Cyngor ran i'w chwarae wrth gyfathrebu eglurder am swyddogaeth bob budd-ddeliad unigol mewn perthynas â gwaith rheoli dŵr a lliniaru llifogydd. Felly:

***PENDERFYNWYD****: - bod:*

*(i) Cyflwyniad yn cael ei roi yn ystod cyfarfod Briffio'r Cyngor ar yr etholiadau awdurdod lleol ym mis Mai 2017 at ddibenion cynorthwyo cynghorwyr i ddeall cyfrifoldebau statudol y Cyngor Sir, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rheoli dŵr a llifogydd, gan gynnwys cyfrifoldebau cynnal a chadw arfordirol ac afonydd, a sut y mae'r ddau sefydliad yn cydweithio i liniaru risgiau llifogydd; ac*

*(ii) Yn y cyfamser, dylid paratoi a chyflwyno datganiad i'r wasg i'w gynnwys yn atodiad 'Farm and Country' y Daily Post ar sut y gall perchnogion glannau afonydd ymgeisio am drwyddedau i wneud gwaith cynnal a chadw o bryd i'w gilydd ar gyrsiau dŵr sy'n croesi eu tir.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (CA), a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnig Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi

crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

- Gwahodd Prif Gwnstabl yr Heddlu i ddod i Gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhelir ar 2 Chwefror 2017.
- Ychwanegu adroddiad drafft Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i gyfarfod 2 Chwefror 2017.
- Symud Cynllun Gweithredu Gwylanod drafft o gyfarfod mis Chwefror i Raglen 23 Mawrth 2017.
- Symud effaith y cynnydd mewn taliadau parcio ceir ledled y sir a'r Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio drafft o gyfarfod mis Mawrth i raglen 15 Mehefin 2017.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Nid oedd unrhyw adroddiadau wedi dod i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55am